

Presenoldeb

Ynys Môn / Anglesey Rheinallt Thomas (RT) Blaenau Gwent Pen-y-bont ar Ogwr / Pen-y-bont ar Ogwr Edward Evans (EE) Lindsey HaCGMy (gadawodd) Alice Parry (AP) Sarah Humphries Caerffili/ Caerffili Caerdydd / Caerdydd Donna Graves (DG) Sir Gaerfyrddin / Carmarthenshire Jennifer Harding-Richards (JHR) Ceredigion Rhianydd James (RJ) Colin Partridge (CP) Conwy Roger Boon (RB)	Sir Ddinbych / Sir Ddinbych Jennie Downes (JD) Sir y Fflint Dave Mackie (DM) Vicky Barlow (VB) Mared Eastwood (ME) Gwynedd Merthyr Tudful / Merthyr Tudful Sir Fynwy / Sir Fynwy Louise Brown (LB) Rachel Buckler (RBU) Castell-nedd Port Talbot / Castell-nedd a Phort Talbot Rachel Samuel (RS) Casnewydd / Newport Syr Benfro / Sir Benfro Powys Caroline Davies (CD) Mike Head (MH) John Mitson (JM) Mynychwyr eraill : Dafydd Ashworth Andrew Bennett	Rhondda Cynon Taf Mathew Maidment (MM) Abertawe / Abertawe Torfaen Emily Lloyd (EL) Bro Morganwg / Dyffryn Morganwg Kathy Riddick (KR) Wrecsam / Wrecsam Tania ap Siôn (TS) Libby Jones (LJ) PYCAG EFTRE Phil Lord (PL) Consortia Rhanbarthol Donna Graves (DG) Hayley Jones (HJ) Phil Lord (PL) EAS	Aelodau cyswllt: CBAC Chris Owens (CO) Tori Murphey (TM) ESTYN Gwawr Meirion Llywodraeth Cymru REC Libby Jones (LJ) Eglwys yng Nghymru Emily Lloyd (EL) Gwasanaeth Addysg Gatholig Cymwysterau Cymru Oliver Stacey (OS) Rhwydwaith Rhyng-ffydd ADEW Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant Cofnodion (o'r recordiad) Jo Nicholls (JNI) Cyfieithydd: Sioned Jones
---	---	---	--

1. Cyflwyniad a chroeso

Croesawodd EE yr aelodau i gyfarfod y Gwanwyn a oedd yn cael ei letya gan CYS lleol EE, Pen-y-bont ar Ogwr. Croesawodd EE Gyfarwyddwr Corfforaethol Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Mr. Lindsey Harvey.

Rhoddodd Mr. Lindsey Harvey y cyflwyniad canlynol:

Croeso cynnes, rydym wrth ein bodd ac yn teimlo ei bod yn anrhydedd i gynnal y cyfarfod hwn gyda CCYSAGauC yn enwedig gan fod y Gymdeithas yn dathlu ei phen-blwydd yn 30 oed. Rydym yn rhoi parch mawr iawn i CCYSAGauC a'i gwaith. Ar ran fy nghyd-Gyfarwyddwyr Addysg ledled Cymru, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch a llongyfarch pob un ohonoch sydd wedi bod yn rhan o'r fenter hon, a'r rhagwelediad i sefydlu CCYSAGAUC 30 mlynedd yn ôl, ac i'r rhai a weithiodd mor galed i gynnal ei phresenoldeb a'i safle ym maes CGM.

Mae Pwyllgor CYS Pen-y-bont ar Ogwr yn gorff pwysig i awdurdodau lleol Pen-y-bont ar Ogwr. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn hefyd i fynegi fy nioch i holl aelodau'r grŵp hwn am eu hymrwymiad, eu cyfraniadau, a'r cefnogaeth y maent yn ei chynnig i ymarferwyr CGM ym Mhen-y-bont ar Ogwr a thu hwnt. Mae'n ffrainc gennym gael arbenigedd EE ein Cadeirydd, y mae ei ymrwymiad a'i wybodaeth yn y maes hwn wedi cael effaith mor gadarnhaol ar ein CYS lleol ac agenda ehangach y CYS. Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi gwerth yr holl waith sy'n digwydd yn CCYSAGauC.

Fel cyn-athro, rwyf wrth fy modd yn gallu siarad am y camau sylweddol rydym wedi'u gwneud ym maes Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr. Mae CGM yn chwarae rhan hanfodol wrth lunio fframwaith moesol a moesegol pob dysgwr. Mae'n meithrin dealltwriaeth ddyfnach o fydolygon ac yn hyrwyddo parch ac empathi ymhlith dysgwyr, ac mae hyn yn rhywbeth yr wyf yn credu sy'n bwysig i ni i gyd ei gofleidio. Rydym hefyd yn falch o gyhoeddi bod ein cwricwlwm CGM wedi'i gyflwyno'n llwyddiannus ar draws pob lleoliad meithrin nas cynhelir, ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd hyd at a chan gynnwys blwyddyn naw o fis Medi y llynedd. Mae'r gweithredu cynhwysfawr hwn yn sicrhau bod dysgwyr yn bodloni'r gofynion gorfodol fel y'u nodir yn y Cwricwlwm i Gymru ac yn fwyaf nodedig o fewn y pedwar diben sy'n llywio dinasyddion yn foesebol.

Rydym yn edrych ymlaen ac yn cydnabod y bydd angen cynllunio strategol yn amlwg i sicrhau llwyddiant parhaus y pwnc academiaidd hwn o fewn y rhanbarth a thrwy Gymru. Yn amlwg, bydd cyflwyno'r cwrs TGAU Astudiaethau Crefyddol newydd yn cael effaith sylweddol ar ymarferwyr a dysgwyr, ac yn ogystal, cynllunio ar gyfer y newidiadau yn y CGM gorfodol ym mlynnyddoedd 10 ac 11 wrth i'r cwricwlwm gael ei gyflwyno ar gyfer yr ysgolion hynny nad oes ganddynt garfan iawn yn dilyn TGAU. Mae'n hanfodol ein bod yn dyrannu digon o amser cwricwlwm a darpariaeth ar gyfer CGM gorfodol ym mlynnyddyn 10 ac 11 wrth i'r Cwricwlwm i Gymru barhau i gael ei gyflwyno'n derfynol. Mae CYS Pen-y-bont ar Ogwr wedi bod yn rhoi cefnogaeth weithredol ac mae'n cymryd rhan yng Nghonsortium Canolbarth y De a Fforwm CGM ar gyfer CGM, addysg grefyddol, astudiaethau crefyddol, ac rydym yn parhau i wneud hynny.

Rydym yn falch iawn o gael Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yn cynrychioli ein hawdurdod lleol ar y fforwm hwn. Mae eu cyfranogiad yn tynnu sylw at yr ymrwymiad i feithrin amgylchedd cydweithredol ar gyfer addoli ar y cyd dyddiol yng Nghymru a gwrando ar lais y dysgwr. Mae'r awdurdod lleol a Chonsortium Canolbarth y De, ein partneriaid, wedi bod yn gefnogaeth gadarn i weithredu addoli ar y cyd dyddiol yng Nghymru ar gyfer ysgolion. Mae hyn yn cynnwys datblygu polisi generig sy'n cefnogi deunyddiau i'r maes llafur cytunedig ar gyfer y cwricwlwm newydd a'r canllawiau ar gyfer addoli ar y cyd. Mae CYS Pen-y-bont ar Ogwr wedi derbyn dau gyflwyniad newydd ar gyfer ysgolion am y

ddarpariaeth addoli ar y cyd, ac mae'r cyflwyniadau hyn wedi rhoi cipolwg gwerthfawr ar y llwyddiannau a'r heriau y mae ymarferwyr yn eu hwynebu. Mewn ymateb, fe wnaethom ddatblygu cyfres o adnoddau newydd i gefnogi'r ceisiadau a'r anghenion penodol a nodwyd gan ein hysgolion. Gyda'n gilydd rydym yn llunio dyfodol mwy disglair i'n dysgwyr wedi'i seilio ar egwyddorion a gwerthoedd parch, empathi a dealltwriaeth. Ac yn olaf, ar ran awdurdod Lleol Pen-y-bont ar Ogwr, dymunaf gyfarfod cynhyrchiol i CCYSAGauC heddiw.

Diolchodd EE i LH am ei gyflwyniad a'i eiriau cefnogol.

Cyflwynwyd Rheinallt Thomas, un o aelodau sefydlol CCYSAGauC, gan EE, i ddweud ychydig eiriau am flynyddoedd cynnar CCYSAGauC.

Mynychodd RT a JM y cyfarfod cyntaf a gynhaliwyd ar Chwefror 27ain, 1995. Llongyfarchodd RT JM ar ei rôl fel Trysorydd am y 30 mlynedd diwethaf.

Rhannodd RT y manylion canlynol am gefndir CCYSAGauC:

Ym mis Mawrth 1991, pan oeddwn i'n Gyfarwyddwr Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru, cynhaliwyd ymgynghoriad ac wedi hynny cyhoeddwyd y bwletin cwricwlwm gan Gyngor Cwricwlwm Cymru. Darparodd y fenter hon ffocws newydd, ac arweiniodd hyn at y Ganolfan yn cynnull, yn cadeirio ac yn cofnodi ymgynghoriad o bob CYSAG yng Nghymru ym mis Ionawr 1992.

Gwnaeth yr ymgynghoriad sawl argymhelliad, ac un ohonynt oedd sefydlu gweithgor bach i edrych ar y meysydd llafur cytûn a oedd wedi'u cyhoeddi. Roedd 1988 yn arwyddocaol o ran gofynion ac ati. Ym mis Mehefin 1992 cyhoeddodd y Ganolfan bamffled o dan y teitl 'Meysydd Llafur Cytûn Newydd yng Nghymru', adroddiad y gweithgor ar yr ymgynghoriad. Cyflwynwyd yr adroddiad dwyieithog hwn i ymgynghoriad arall a gynhaliwyd ym mis Medi 1992 a pharhaodd y Ganolfan i gydlynu ymgynghoriadau CYSAGau Cymru yn ystod 1993 a 1994. Roedd y sylw pennaf ar 'Gylchlythyr 1094'. Arweiniodd gwerth yr hyn a gyflawnwyd trwy gydweithio o dan arweinyddiaeth y Ganolfan at awgrym y dylid ffurfio Cymdeithas CYSAGau Cymru. Ystyriwyd bod hyn yn angenrheidiol oherwydd yr ad-drefnu llywodraeth leol a oedd ar ddod, a arweiniodd at 8 CYSAG yn dod yn 22 CYSAG o 1996. Cyfarfu cynrychiolwyr yr 8 CYSAG yng Nghymru yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd 1994 ac roeddent yn unfrydol yn eu cefnogaeth i sefydlu cymdeithas.

Yng nghyfarfod cyntaf CCYSAGAUC ar 27 Chwefror 1995, cymeradwywyd cyfansoddiad. Cytunwyd y byddai'r Gymdeithas yn cyfarfod dair gwaith y flwyddyn i drafod pryderon cyffredin, rhannu arbenigedd a hwyluso cydweithrediad rhwng AALLau wrth ddatblygu AG ac addoli ar y cyd.

Y cadeirydd cyntaf oedd yr Archddiacon, John Alex Lewis o Forgannwg Ganol, yr Is-Ganghellor, Wyndham Davis o Orllewin Morgannwg, yr Ysgrifennydd, Gavin Craigan o Glwyd a'r Trysorydd John Mitson o Bowys. Cynhaliwyd yr ail gyfarfod yng Nghlwyd ar Fehefin 8fed, 1995. Erbyn 1996 roedd yr ad-drefnu wedi digwydd, a chynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol CCYSAGauC yn Llangefni ar Orffennaf 11eg. Roedd yn bleser mawr bod 18 o'r 22 awdurdod newydd wedi gallu anfon cynrychiolwyr. Y cynrychiolwyr hyn oedd Cyfarwyddwyr / Cyfarwyddwyr Cynorthwyol Addysg. Roedd hyn yn allweddol i lwyddiant sefydlu CCYSAGauC, wrth i'r Gymdeithas gael ei chefnogi ar y lefel uchaf gan y Cyfarwyddwyr Addysg a'u dirprwyon. Rwy'n credu mai un o'r cryfderau drwy gydol yr adeg oedd cefnogaeth yr Awdurdodau Lleol ac mae'r ymgynghorwyr wedi bod yn allweddol.

Deuthum o hyd i gopi o'r holl swyddogion o 1995 hyd at 2000. Awgrymaf y gallai fod yn ddiddorol arddangos hwn ar wefan CCYSAGauC.

Rwyf am gyfeirio at un neu ddau o enwau, Gavin Craigan a oedd yn allweddol i'r sefydlu ac i'w llwyddiant fel Ysgrifennydd cyntaf CCYSAGauC. Dilynwyd ef gan Hywel Evans, a fu'n

swyddog am dros 10 mlynedd, yn Ysgrifennydd ac yna yn Ysgrifennydd Cynorthwyol. Roedd Hywel Evans yn bwysig iawn, oherwydd ef oedd Cadeirydd Cyngor Cwricwlwm Cymru. Ar yr adeg allweddol honno, llwyddodd i bontio'r bwlch hwnnw'n effeithiol iawn. Dilynwyd ef gan y Canon Edward Evans, yn Ysgrifennydd Cynorthwyol, ac fel y gwyddom, mae EE yn ôl eto fel Cadeirydd ac mae wedi gwneud cyfraniad gwych dros y blynyddoedd.

Ers ei greu, mae CCYSAGauC wedi meithrin perthnasoedd da iawn gyda Chyngor Cwricwlwm Cymru, PYCAG, ACAC ac yn fwy diweddar gyda Llywodraeth Cymru.

Llwyddodd CCYSAGauC i gyflawni ei hamcanion o ran cydweithredu a chydweithio a lles Addysg Grefyddol. Ni fyddai AG mewn sefyllfa mor iach mewn ysgolion yng Nghymru oni bai am CCYSAGauC.

Diolchodd EE i RT a mynegodd ei ddiolchgarwch bod RT a JM ill dau yn mynychu cyfarfod heddiw.

2. Myfyrdod tawel

Arweiniodd EE fyfyrdod tawel wrth edrych ymlaen:

Bydd y rhai ohonom sydd wedi bod yn rhan o CCYSAGauC yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn ymwybodol o sut mae'r Gymdeithas wedi tyfu o ran statws a sut mae wedi dod i gael ei pharchu gan lawer o sefydliadau sy'n gysylltiedig ag addysg yng Nghymru. Rydym yn bartneriaid uchel ein parch gyda Llywodraeth Cymru, Estyn, Cymwysterau Cymru, CBAC, ADEW ac eraill. Mae'r perthnasoedd hyn yn golygu bod CCYSAGauC ar flaen y gad o ran hyrwyddo Addysg Grefyddol (CGM) yng Nghymru. Mae'n fraint gennym fod yn rhan o drafodaethau lefel uchel gyda'r holl sefydliadau hyn sy'n galluogi llais yr ymarferydd, yn ogystal â'r CYS lleol, i gael ei glywed a chael rhywfaint o ddylanwad. Heddiw, mae 20 allan o'r 22 cyngor ymgynghorol sefydlog yng Nghymru yn tanysgrifio i waith CCYSAGauC ac yn ei gefnogi. Pan fydd CCYSAGauC yn siarad, mae'n cynrychioli'r CYSau hynny o bob cwr o Gymru, ac yn hyn o beth, mae ganddi'r awdurdod i siarad a thrwy ein haelodau, swyddogion, cynghorwyr ac aelodau cysylltiol ymroeddedig CCYSAGauC, rydym wedi creu teulu o unigolion a grwpiau o'r un anian sy'n gweithio gyda'i gilydd i ddarparu cefnogaeth o ansawdd uchel ar gyfer darparu CGM, Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd yng Nghymru.

Diolchwn i'r CYSau hynny am eu cefnogaeth barhaus, ac edrychwn ymlaen at gryfhau perthnasoedd gan barhau i fod yn agored i rai newydd.

Mae llawer o heriau yn wynebu CGM fel pwnc. Mae nifer y myfyrwyr sy'n dewis astudio Astudiaethau Crefyddol ar lefel TGAU a Safon Uwch yn gostwng o flwyddyn i flwyddyn. Mae gennym y cyfle perffaith gyda CGM i ymgysylltu â phobl ifanc mewn ffordd nad ydym wedi'i gwneud o'r blaen.

Gyda chwmpas ehangach y pwnc, gall ysgolion bellach ddarparu yn eu cwricwlwm pwrpasol CGM sy'n archwilio materion y gorffennol a materion cyfoes sydd o bwys mawr i bobl ifanc yng Nghymru. Eu helpu i ddatblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiadau sydd eu hangen arnynt i lywio trwy'n byd cyflym, newidiol ac amrywiol. Mae'n amlwg o'r ffilm lwyddiannus a ryddhawyd yn ddiweddar ac a gafodd glod mawr, fod CGM yn wirioneddol bwysig. Mae'n cwmpasu cynifer o agweddau ar y byd sydd ohoni. Cynlluniwyd y ffilm i ddenu sylw myfyrwyr heddiw.

Mae pobl ifanc heddiw â diddordeb mawr ac yn ymwneud yn fawr â llawer o agweddau sy'n effeithio ar ein bywydau beunyddiol, gwleidyddiaeth, moeseg a chadwraeth. Yn ystod fy amser yn gweithio gydag ysgolion lleol, rydw i wedi cael llawer o sgysiau diddorol gyda myfyrwyr ar bynciau fel, a yw hi byth yn iawn lladd? A yw rhyfel byth yn gyfiawn? Beth am y gosb eithaf, hunanladdiad â chymorth, a phynciau eraill o'r fath sydd ym meddyliau'r cyhoedd heddiw, mae pobl ifanc â diddordeb gwirioneddol mewn pynciau fel hyn, ac mae CGM yn rhoi'r cyfle iddynt archwilio'r materion pwysig hyn yn fanylach o safbwyntiau

crefyddol ac anghrefyddol. Fodd bynnag, os yw hynny i weithio'n effeithiol ac yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol, rhaid i ni sicrhau bod y dull o gyflwyno CGM yn yr ysgol yn diwallu anghenion a hawliau ein dysgwyr, a dyna lle mae gan y CYSAGau a CCYSAGauC rôl allweddol iawn i'w chwarae. Mae CCYSAGAUC yn cydnabod ac yn parchu'r ffaith ei bod yn ofynnol i bob awdurdod lleol sefydlu ei faes llafur cytûn ei hun. Gweithiodd y gymdeithas yn galed i sicrhau bod llais CYSau lleol yn cael ei glywed a'i wrando arno o fewn y broses o ddatblygu'r Cwricwlwm i Gymru. Darparodd CCYSAGauC Swyddogion Gweithredol i helpu Llywodraeth Cymru i ddrafftio'r canllawiau statudol ar gyfer CGM, ac mae'n parhau i ddarparu cefnogaeth ac arweiniad yn genedlaethol, pryd a lle bynnag y bo angen, gan barchu ymreolaeth pob CYS. Er enghraifft, mae swyddogion wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i baratoi cyfres o restrau chwarae, sydd bellach ar blatfform Hwb. Mae'r rhain yn debyg iawn i gyflwyniadau PowerPoint rhyngweithiol, ac maent ar gael i bawb. Mae pob un yn gosod llinell sylfaen ar gyfer gwybodaeth hanfodol i gynulleidfa benodol neu ar bwnc penodol, heb danseilio penderfyniad lleol, ond gan gynnig cefnogaeth sylfaenol i CYSau adeiladu arni os dymunant. Dyma'r math o gydweithrediad yr ydym yn gobeithio ei weld yn parhau. Mewn oes lle mae mwy a mwy o angen cydweithrediad, mae gwaith CCYSAGauC yn hanfodol. Mae'r pynciau a drafodir yn ei chyfarfodydd Gweithredol ac yn ein cyfarfodydd tymhorol yn amrywiol iawn. Mae ei chyd-destun yn gynyddol bwysig, ac mae ei gwaith gyda PYCAG yn cryfhau safle CGM yn yr ystafell ddosbarth.

Y llynedd cynhaliodd CCYSAGAUC gynhadledd a werthfawrogwyd yn fawr gan gynifer. Yn seiliedig ar lwyddiant y gynhadledd honno, mae mwy wedi'u cynllunio, a fydd yn galluogi ymarferwyr a'r rhai sy'n ymwneud â CGM i ddod ynghyd i annog ac archwilio dulliau cyflwyno newydd ac arloesol. Mae CCYSAGauC yn ymwybodol o'r pryder sydd ymhlith athrawon y pwnc. Nod prosiect ymchwil academiaidd o'r enw 'Prosiect Llais yr Athro – CGM yn y Cwricwlwm i Gymru' yw ceisio sefydlu beth yw'r meysydd pryder gwirioneddol. Byddwn yn clywed mwy am hyn yn ddiweddarach yn eitem 10. Gwnewch bopeth o fewn eich gallu fel CYS i annog ymarferwyr yn eich ardal leol i gymryd rhan. Po fwyaf o ymatebion a dderbynnir, y mwyaf gwerthfawr fydd y prosiect. Byddwn yn argymhell eich bod yn cadw i fyny â holl faterion CCYSAGauC trwy wefan CCYSAGAUC, yr ydym yn ceisio ei chadw'n gyfredol yn barhaus.

Wrth i ni fyfyrio ar y 30 mlynedd diwethaf o CCYSAGauC, rydym ni hefyd yn edrych ymlaen at ddyfodol y Gymdeithas. Mae'r dyfodol yn ein dwylo ni. Mae llawer o waith i'w wneud. Rhaid inni geisio sicrhau bod CCYSAGauC yn parhau i siarad ar ran ein CYSau yng Nghymru. Dyna lle mae ei chryfder, llais unedig. Llais sy'n cael ei barchu a'i glywed gan y rhai sy'n deddfu ac i sicrhau bod CGM fel pwnc yn parhau i dyfu a ffynnu ac nad yw'n diflannu o lwyfan addysg heddiw. Diolch i'r rhai a sefydlodd CCYSAGauC. Gobeithiwn y byddwn yn parhau â'u hetifeddiaeth.

3. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Tyler Saunders, Pwyllgor Gwaith, Ali Ahmed CYS Caerdydd, Ellen Stock CLIC, a Paula Webber, PYCAG.

4. Cofnodion y cyfarfod diwethaf, Zoom, 14 Tachwedd 2024 (Sir Fynwy)

Eitem 8, tudalen 5, newid 7fed pwynt bwled 'Yr asesiadau heb eu harholi, rhywbeth sy'n gwbl newydd i'r proffesiwn addysgu' i'w newid i 'Yr asesiadau heb eu harholi, rhywbeth sy'n gwbl newydd i athrawon Addysg Grefyddol.'

Gyda'r gwelliant hwn cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2024.

Bydd EE, y Cadeirydd, yn llofnodi'r cofnodion i nodi mai dyma'r fersiwn derfynol ac yn rhoi'r copi hwn wedi'i llofnodi i AP i'w ffeilio.

5. Materion yn codi o gofnodion y cyfarfod diwethaf.

Un mater yn unig yn codi, cytunwyd y dylid arddangos rhestr o ymgynghorwyr yr ALL ar wefan CCYSAGauC.

Pob mater arall i'w trafod yn agenda heddiw.

Diolchodd RT i EE a PW (PYCAG) am y geiriau caredig wrth i MAGC gael ei ddiddymu. Ar wahân i hysbysu'r comisiwn elusennau, mae popeth bellach wedi'i gwblhau. Mae gan RT y ddolen i'r copi o'r llyfr.

6. Cynhadledd CCYSAGauC

Papur costau

Rhannwyd y papur costau gyda'r aelodau.

JM: Gwnaeth sylwadau ar lwyddiant y gynhadledd. Roedd yn gynhadledd ardderchog gydag adborth cadarnhaol a dderbyniwyd ar y diwrnod ac ar ôl y gynhadledd. Roedd y siaradwyr yn ysbrydoledig, ac mae'r cyflwyniadau allweddol ar gael i'w gweld ar wefan CCYSAGauC.

Cyfanswm cost y gynhadledd oedd £17,235.24. Cyflwynodd JM y dadansoddiad a oedd wedi'i fanylu ar y daflen gostio.

RB: Oes posibilrwydd o gynhadledd arall? A fydd hi'n cael ei chynnal ddwywaith y flwyddyn?

JM: Gall gymryd blwyddyn neu ddwy i gronni arian i wneud rhywbeth ar y raddfa hon.

LJ: Mae'r Pwyllgor Gwaith wrthi'n ystyried dyddiadau posibl ar hyn o bryd, efallai hyd yn oed mor gynnar â thymor yr hydref. Ni fydd ar yr un raddfa â mis Mehefin 2024 ac efallai y bydd ar-lein.

LB: Pa gronfeydd wrth gefn sy'n weddill ar ôl y treuliau hyn?

JM: Mae'r cyfrifon tua £40,000. Mae cronfeydd wrth gefn wedi bod yn cronni. Cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd y llynedd oedd £9,900.

RT: Cynhaliwyd cynadledau yn ôl yr angen. Pwysig adeiladu cronfeydd.

RJ: Cytunaf fod angen cynhadledd, fodd bynnag, roedd y sesiynau hyfforddi cyn ac ar ôl y gynhadledd yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr, a byddai unrhyw hyfforddiant pellach i gefnogi gweithrediad ein TGAU CGM / Astudiaethau Crefyddol yn cael ei werthfawrogi'n ddiolchgar.

LJ: Cydnabu sylwadau RJ

GWEITHREDU: Papur costau'r gynhadledd i'w anfon at bob CYS.

7. Ffilm CGM

Adroddodd LJ:

Anfonwyd y ffilm at holl glercod CYS, PYCAG, ymgynghorwyr, Lynn Neagle ac Esgob Llandaf. Cafodd ei huwchlwytho yn syth hefyd i wefan CCYSAGauC i bawb ei gweld. Gwelwyd y ffilm gan amryw o athrawon, ymarferwyr, cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru (LIC) a sefydliadau cenedlaethol eraill y mae CCYSAGauC yn partneru â nhw. Derbyniodd CCYSAGauC adborth cadarnhaol ac roedd y gefnogaeth i'r ffilm yn ysgubol. Soniodd rhai athrawon eu bod eisoes wedi'i defnyddio yn eu hystafell ddosbarth i ysgogi trafodaeth ac efallai y byddant yn ei defnyddio ar gyfer diwrnodau agored i'r ysgolion cynradd.

Roedd cydweithwyr Llywodraeth Cymru (LIC) yn gwerthfawrogi'r ffilm yn fawr ac wedi eu plesio ganddi. Cytunodd LIC i rannu'r ffilm drwy eu grwpiau mewnol ac allanol. Mae hefyd wedi'i chynnwys ddwywaith yn Dysg.

Rydym yn dal i aros i glywed yn swyddogol gan Lynn Neagle, ac Esgob Llandaf gyda'u sylwadau.

Rhannwch y ffilm ac anogwch eraill i rannu'n eang. Os oes gennych unrhyw syniadau ynglŷn â sut y gallwn barhau i'w rhannu, rhowch wybod i mi. Diolch yn fawr iawn am yr holl sylwadau rydyn ni wedi'u derbyn a diolch i bawb am eich cefnogaeth.

EE: Mae rhai ysgolion uwchradd yn defnyddio'r ffilm mewn nosweithiau opsiynau.

DG: Mae fforwm Llais yr Ieuencid CSC ac EAS ar gyfer CYSAG/CYS yn cynhyrchu eu fersiynau eu hunain o'r ffilm. Cawsant eu hysbrydoli ganddi.

JM: Cost y ffilm oedd £10,341.50 a oedd yn cynnwys rhodd o £150.41 i'r unigolyn a oedd yn serennu yn y ffilm.

TAS: Cadarnhawyd bod y ffilm ar YouTube:

<https://www.youtube.com/watch?v=mdFxWoCvqzo&t=1s>

8. Cyflwyniad PYCAG

Cyflwynodd PL 'Adroddiadau Blynyddol CYSAG' - mae copi o'r cyflwyniad i'w anfon gyda'r cofnodion hyn.

Y camau nesaf:

- Mae angen ailysgrifennu'r ddogfen gyda mewnbwn gan Lywodraeth Cymru yn amlinellu'r gofynion.
- Ystyried cynnwys cynllunio ymlaen llaw yn ogystal â myfyrio ar y flwyddyn ddiwethaf.
- Adolygiad o adroddiadau blynyddol yn rheolaidd. Nodi arfer da a rennir wedyn.
- Mae CCYSAGauC yn cyfarfod â LIC i drafod diweddariad y ddogfen a'r adolygiad blynyddol.

RB: Anogodd y cynllun sy'n edrych ymlaen. Defnyddiol ar gyfer targedu a dyrannu cyfrifoldeb.

GWEITHRED : Y CYSau i ychwanegu hyn at eu hagenda i drafod yr hyn sydd ei angen arnynt ar eu hadroddiadau blynyddol ac adborth i PYCAG a fydd wedyn yn trafod gyda LIC.

9. Materion Llywodraeth Cymru [LIC]

Cyfarfodydd tymhorol arferol gyda chydweithwyr LIC

Adroddodd LJ:

Roedd y cyfarfod diweddaraf ar 14 Ionawr 2025. Yn bresennol o CCYSAGauC roedd EE, TaS ac LJ, ac yn bresennol o LIC oedd Alison Tom (AT) a Pauline Smith (PS). Roedden ni wedi cyfarfod ag Amy yn flaenorol, sydd bellach wedi gadael. Mae LIC yn chwilio am olynydd.

Rhodddwyd diweddariad ar Adnodd sef y tîm sy'n gyfrifol am gomisiynu adnoddau ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Tîm dan arweiniad Dr Ali Hanbury gydag Elliw Roberts a Dyddgu Morgan-Hywel. Ar hyn o bryd yn asesu'r angen am adnoddau newydd, yn benodol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru mewn CGM. Mae'r tîm yn deall pwysigrwydd edrych yn feirniadol ar unrhyw adnoddau a ddewisir.

Mae LJ a JHR ill dau, fel arbenigwyr AG, wedi cyfarfod â'r tîm hwn i gefnogi eu gwaith. Gwnaeth Llywodraeth Cymru y penderfyniad na fydd Hybiau AG yn cael eu rhoi ar Hwb. Mae LIC wedi anfon rhestr o adnoddau newydd y mae Sally Llewellyn wedi'u casglu at CCYSAGauC a fydd yn ymddangos ar Hwb yn fuan.

Ar hyn o bryd mae Canolfan San Silyn yn adolygu adnoddau a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer plant 3 i 7 oed a fydd hefyd yn ymddangos ar Hwb.

Trafodwyd adroddiad Bangor. Teimlai Llywodraeth Cymru fod maint y sampl yn rhy fach a bod problemau hirdymor gyda'r ymchwil. Nid oedd yr adroddiad yn ddigon cynhwysfawr i ddylanwadu ar bolisi Llywodraeth Cymru.

Gyda thristwch, adroddwyd bod Kevin Palmer yn ddifrifol wael. Mynegodd CCYSAGauC ei dymuniadau gorau i Kevin Palmer a'i deulu.

Mae hyn yn golygu bod prosiect CCYSAGauC ynghylch hyfforddiant cychwynnol athrawon ac uwchsgilio athrawon wedi'i ohirio. Bydd AT yn cysylltu â Max White a arferai weithio gyda Kevin Palmer i gael y wybodaeth ddiweddaraf.

Roedd AT yn hynod gadarnhaol ynglŷn â ffilm CGM CCYSAGauC a gwnaeth sylwadau ar sut roedd yn cefnogi cwrmpas ehangach CGM ac yn darparu persbectif gwych ar CGM mewn ffordd hygyrch. Mae wedi'i gynnwys yn Dysg. Yr eitem olaf ar yr agenda oedd adroddiadau blynyddol CYS y mae PL newydd eu cyflwyno.

Cyfarfu PYCAG a CCYSAGauC ar 10 Chwefror i drafod yr adroddiadau blynyddol, a bydd cynnig yn cael ei rannu â LIC.

Cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer ar ôl y Pasg, dyddiad i'w gadarnhau

Dysgu proffesiynol ar gyfer CGM (rhestr chwarae Llywodraethwyr)

Adroddodd LJ:

Ers y prif gyfarfod diwethaf ym mis Tachwedd, mae rhestr chwarae'r llywodraethwr o'r wedi'i chyhoeddi o'r diwedd. Mae'n llinell sylfaen o wybodaeth y bydd llywodraethwyr yn ei chael yn ddefnyddiol. Mae'r ddolen i'r rhestr chwarae wedi cael ei hanfon at y CYSau. O'r fan honno mae angen ei rhannu gyda'r llywodraethwyr. Mae ar gael yn adran adnoddau Hwb.

Dolen yma:

<https://hwb.llyw.cymru/ystorfa/adnodd/eef7e399-93bb-4d7c-ab68-145c93f4c6d3/trosolwg>

RJ: Mae Ceredigion wedi rhannu'r ddolen i restr chwarae'r llywodraethwr yn eu cylchlythyr gwanwyn i lywodraethwyr.

GWEITHRED : CYSau i wirio bod dolen rhestr chwarae'r llywodraethwr wedi'i rhannu gyda'r llywodraethwyr.

10. Ymchwil a gefnogwyd gan CCYSAGauC - Prosiect Llais yr Athro: CGM yn y Cwricwlwm i Gymru

Cyflwynodd TaS: Prosiect Llais yr Athro: CGM yn y Cwricwlwm i Gymru. Anfonir copi o'r cyflwyniad gyda'r cofnodion hyn.

TaS: Mae pum sefydliad yn cydweithio ar y prosiect hwn: Canolfan San Silyn Wrecsam; Prifysgol Esgob Grosseteste; Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Cymorth Addysg Castell-nedd Port Talbot ac Ysgol Uwchradd Llanisien, Caerdydd.

Mae arolwg yr ymchwil yn cynnwys elfennau meintiol ac ansoddol ac mae'n cynnwys athrawon yng Nghymru sy'n gweithio mewn cyd-destun ysgol neu leoliad 3 i 16 oed. Fe'i cynlluniwyd i gael mynediad uniongyrchol at brofiadau ac ymgysylltiad athrawon â newid cwricwlwm yng Nghymru. Mae'r ffocws yn benodol ar CGM. Cafodd moeseg ymchwil yr arolwg ei chymeradwyo a'i chanmol yn fawr gan baneli moeseg ymchwil dwy brifysgol, Prifysgol Esgob Grosseteste a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd. Nod yr arolwg yw llywio deialog broffesiynol a dysgu proffesiynol, yn lleol ac yn genedlaethol.

Prif rôl CCYSAGauC yw hyrwyddo a dosbarthu'r arolwg a'i ganfyddiadau.

Manylwyd ar gynllun a chynnwys yr arolwg yn sleidiau 11-19.

Derbyniodd pob CYS yr arolwg ddiwedd mis Ionawr a bydd yn cael ei rannu'n ehangach gydag ymarferwyr.

Mae llwyddiant yr arolwg yn dibynnu ar gynifer o ysgolion ac athrawon â phosibl yn cwblhau'r arolwg. Po fwyaf o ymatebion, y mwyaf gwerthfawr fyddai a'r mwyaf derbyniol fyddai ei ganlyniadau gyda'r cyfle cynyddol i'w ddadansoddi ar lefel leol a chenedlaethol. Helpwch ni fel CYSau i hyrwyddo hwn o ddifrif.

Y dyddiad cau ar gyfer yr arolwg yw cyn gynted â phosibl erbyn diwedd tymor yr haf.

Dolen i'r arolwg: <https://stgilescentre.org/wp-content/uploads/2025/03/SuCGMy-information-attachment.pdf>

CAM GWEITHREDU : Pob aelod o CCYSAGauC i annog ymarferwyr CGM i gwblhau'r arolwg.

RB: Beth ysbrydolodd yr arolwg ac a yw rhywbeth fel hyn wedi cael ei gynnal o'r blaen?

TaS: Mae'r arolwg penodol hwn yn newydd gan ei fod yn canolbwyntio ar CGM ac nid yw wedi'i gynnal o'r blaen. Nawr yw'r amser iawn i gynnal yr arolwg hwn gan y gall ysgolion uwchradd gyfrannu bellach yn ogystal ag ysgolion cynradd. Rydym yn gobeithio cynnal yr arolwg yn rheolaidd i olrhain cynnydd.

JHR: A oes cost i'r ymchwil hwn?

TaS: Y Prifysgolion a Chanolfan San Silyn sy'n talu am yr arolwg. Nid oes unrhyw gost i CCYSAGauC.

RJ: Beth yw'r ymateb hyd yn hyn?

TaS: Dydw i ddim wedi edrych yn fanwl gan ei bod hi'n rhy gynnar ond mae'r ymatebion sydd wedi dod i law wedi rhoi adborth manwl.

RB: Arolwg manwl ardderchog sy'n gefnogol hefyd.

11. Cymwysterau

RS: Adroddodd yn ôl ar yr ymgynghoriad ar y cynnig ehangach. Roedd CCYSAGauC wedi codi pryderon yn flaenorol ynghylch un o deitlau'r uned yn y gyfres sgiliau. Ar y ddogfennaeth ddiweddaraf mae'r teitl wedi'i newid i 'Ffydd a Chred yn y Gymuned'.

LJ: Cododd CCYSAGauC gwestiwn gyda Cymwysterau Cymru ynghylch a fyddai Cymhwyster Archwilio Bydolygon Agored Cymru yn rhedeg ochr yn ochr â'r gyfres sgiliau am ei flwyddyn olaf ac ar gael i ysgolion i gofrestru dysgwyr hyd at fis Hydref 2027 gyda'r gyfres sgiliau yn cael ei gweithredu ym mis Medi 2027. Mae hyn yn dal i gael ei drafod gyda CC wrth iddynt ystyried hyn a chymwysterau eraill nad ydynt yn TGAU.

OS: Mae'n eithaf cymhleth gan fod llawer o gymwysterau eraill i'w hystyried. Mae angen i ni fod yn gadarn yn y broses rydyn ni'n ei defnyddio, felly mae'n cymryd amser. Bydd penderfyniad ar ddiwedd y flwyddyn ysgol.

LJ: Cadarnhaodd, pe bai Cymhwyster Archwilio Bydolygon Agored Cymru yn cael ei dderbyn ochr yn ochr â'r gyfres sgiliau yn 2027, mai dim ond am y ddwy flynedd y byddai'r cymhwyster hwnnw'n rhedeg gyda'r dysgwyr penodol hynny. Nid oes gofyn amdano fel gofyniad cymhwyster parhaus.

•TGAU Astudiaethau Crefyddol

LB: Mae rhai pryderon ynghylch y TGAU astudiaethau crefyddol newydd, ac a ellir gohirio gweithredu hwn. Rwy'n deall bod hanes, er enghraifft, wedi'i ohirio.

OS: Gwnaed y penderfyniad ar hanes ar y cyd rhwng Cymwysterau Cymru, Llywodraeth Cymru a CBAC, ac yn rhannol am fod rhai o'r undebau llafur a Chymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg (ADEW) wedi ysgrifennu at Cymwysterau Cymru. Mae yna gryn dipyn o newid yng nghynnwys hanes.

Rydym yn ymwybodol bod newidiadau yn y TGAU Addysg Grefyddol, yn enwedig yr asesiad di-arholiad, sy'n newid mawr o'r TGAU presennol, ond rydym yn teimlo ei bod yn bwysig bod y TGAU hwn yn mynd rhagddo ym mis Medi, ac na fydd yn cael ei ohirio.

RB: Rwy'n siomedig bod CC yn bwrw ymlaen heb adolygu hyn. Hoffwn weld safbwynt llawer mwy anturus gan fwrdd TGAU wrth ddatblygu rhywbeth fel y cynllun peilot a ddatblygwyd 30 mlynedd yn ôl a oedd yn gyffrous ac yn ennyn brwdfrydedd y myfyrwyr.

MM: Wrth siarad â chydweithwyr fel athro, mae yna lawer o bryderon am y TGAU newydd. Nid yw athrawon yn barod amdano. Nid ydym wedi derbyn ein hyfforddiant eto yn RCT, mae'n ymddangos bod popeth wedi'i ohirio. Rwy'n credu bod ein hyfforddiant i fod digwydd ar 7 Ebrill, a fyddai'n gadael 11 wythnos ysgol ar ôl i ni baratoi ar gyfer TGAU. Rydym yn bryderus iawn a hoffem i CC ailystyried yr opsiwn o ohirio, hyd yn oed os yw'n achos o ganiatáu i'r papur etifeddol barhau, a chyflwyno'r TGAU newydd ym mis Medi. Mewn blynyddoedd blaenorol pan gyflwynwyd TGAU newydd, rydym wedi cael yr opsiwn o gael y papur etifeddol yn ogystal. Efallai y bydd rhai athrawon yn teimlo'n fwy parod nag eraill i gyflwyno'r TGAU newydd.

OS: Byddaf yn mynd yn ôl a'r syniad o redeg yn gyfochrog. Ystyriwyd hynny ar gyfer hanes, ond ni chafodd ei ystyried yn hyfyw, yn anffodus. Mae rhai pobl wedi bod yn siomedig iawn pan fydd

TGAU yn cael eu gohirio gan ddweud eu bod yn barod i'w addysgu. Byddaf yn mynd â'r pryderon a fynegwyd heddiw yn ôl at CC.

RB: A fyddai'r Pwyllgor Gwaith yn ystyried ysgrifennu at y Gweinidog ynghylch y ddarpariaeth yn CA4?

LJ: Cadarnhawyd y bydd llythyr yn cael ei ysgrifennu. Bydd hwn yn cymryd amser i'w gynhyrchu a bydd yn cael ei rannu gyda'r CYSau.

12. Estyn: Fframwaith Arolygu Newydd

Adroddodd GM:

Mae hi ychydig yn gynnar ar hyn o bryd i ni allu casglu gwybodaeth am yr arfer sy'n dod i'r amlwg yr ydym yn ei nodi o fis Medi 2024 ymlaen. Gobeithio y bydd diweddariad erbyn y cyfarfod nesaf.

Mae gan y trefniadau arolygu newydd ar gyfer mis Medi 2024 dri maes arolygu:

- Addysgu a dysgu, sy'n caniatáu i Estyn siarad yn llawer mwy manwl am yr effaith y mae addysgu yn ei chael ar ddisgyblion, cynnydd a dysgu yn yr ystafelloedd dosbarth, a gwneud y cysylltiad hwnnw'n eglur.
- Lles, gofal, cymorth ac arweiniad.
- Arwain a gwella.

Un o'r pethau allweddol y dylid ei bwysleisio yw nad oes gan Estyn unrhyw ddulliau dysgu ac addysgu a ffeirir. Mae Estyn â diddordeb mewn gweld a yw'r disgyblion yn ymgysylltu ac yn gwneud cynnydd yn eu dysgu, gan ganolbwyntio ar yr effaith y mae addysgu yn ei chael ar ddysgu a chynnydd y disgybl hwnnw yn yr ystafelloedd dosbarth.

Gwahoddir sampl o arweinwyr canol i ddod i gyfarfod â chynrychiolydd Estyn a thrafod gwaith disgyblion gyda nhw ac edrych ar sampl o lyfrau. Bydd Estyn yn trafod y gwaith y mae'r arweinydd canol yn ei wneud yn arweinyddiaeth eu hadran a sut maen nhw'n cyfrannu at y prosesau sicrhau ansawdd hynny i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella o fewn Addysgu a Dysgu o safbwynt y cwricwlwm, sy'n dod o fewn maes arolygu un 'Addysgu a Dysgu'.

Cyn bo hir, bydd Estyn yn cyhoeddi canllawiau i amlinellu ei ddull o arolygu'r cwricwlwm. Rydym yn edrych ar ba mor dda y mae ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cwmpasu pob maes dysgu a phrofiad hyd at flwyddyn naw. Rydym yn edrych i weld bod disgyblion yn cael y cyfle hwnnw i gael mynediad at bob maes profiad dysgu. Wrth i ni symud ymlaen nawr at gymwysterau newydd, edrych ar sut mae ysgolion yn darparu'r ehangder o brofiad i ddisgyblion blwyddyn 10. Rydym yn realistig, ni fyddem yn disgwyl i ddisgyblion ymgysylltu â phob datganiad 'yr Hyn sy'n Bwysig', ond byddem yn disgwyl gweld bod disgyblion yn cael cyfleoedd pwrpasol i ymgysylltu â phrofiadau dysgu perthnasol a diddorol.

Rydym yn ystyried y canllawiau statudol, ac rydym yn ystyried a yw darparwyr yn bodloni gofynion mandadol, yn enwedig wrth i ni symud ymlaen i weld beth fydd yn digwydd gyda chymwysterau.

Rydym yn edrych ar ansawdd y profiad. Rydym yn edrych ar a yw cymwysterau'n cael eu cyrchu ac a ydynt yn berthnasol ac yn ystyrlon i ddysgwyr ym mlynnyddoedd 10 ac 11. Gobeithio y bydd y wybodaeth honno wedyn yn cael ei chynnwys yn ein sylfaen dystiolaeth, sydd y tu ôl i'r adroddiad. Rydym yn adrodd trwy eithriad; byddwn yn adrodd ar gryfderau penodol a meysydd penodol i'w gwella er efallai na fydd cyfeiriad penodol atynt mewn adroddiad.

Mae'r ymweliadau interim yn canolbwyntio'n bennaf ar yr argymhellion o'r arolygiad blaenorol a sut mae'r ysgol yn mynd i'r afael â'r argymhellion hynny. Bydd gweithgareddau'n cael eu teilwra i'r argymhellion yr ydym yn edrych arnynt, felly gallent gynnwys pethau fel teithiau dysgu, arsylwadau, craffu ar waith, cyfarfodydd ag arweinwyr canol, cyfarfodydd ag uwch arweinwyr. Rydym wedi cael rhywfaint o adborth cadarnhaol gan uwch arweinwyr am y cyfleoedd iddynt arsylwi ar y cyd neu ddod ar deithiau dysgu ar y cyd gydag AEM. Mae hyn yn caniatáu i ddeialog broffesiynol ddigwydd ynghylch y cryfderau a'r meysydd i'w gwella, mewn addysgu a dysgu, yn benodol. Canlyniad yr ymweliadau interim hynny yw llythyr. Maent yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan, felly byddant yn amlinellu'r gweithgareddau yr ydym wedi'u cynnal. Byddant yn amlinellu rhai o'r pethau yr ydym wedi clywed amdanynt gan arweinwyr, ond yna bydd gennym ychydig o gwestiynau dim ond i helpu'r ysgol i ystyried y camau nesaf wrth iddynt fynd ati i fynd i'r afael â'r argymhelliad hwnnw.

RT: A allwn ni ddisgwyl darpariaeth well gan Estyn o ran CGM ac addoli ar y cyd?

GM: O arolygiad 24 mae'r adroddiadau'n llawer byrrach, yn enwedig yn y sector cynradd, ac fe'u hadroddir trwy eithriad. Er y gall ein sylfaen dystiolaeth gynnwys y wybodaeth yn y cefndir, ni fydd pob agwedd o fewn fframwaith yr arolygiad yn cael sylw. Mae'n benderfyniad a wnaed yn ganolog i wneud yr adroddiadau mor gryno ac mor glir â phosibl yn canolbwyntio ar gryfderau a meysydd penodol i'w gwella. Mae gennym rai pwyntiau sylw y byddwn yn eu hamlygu, yn enwedig arfer cryf o fewn meysydd cwricwlwm. Ni fydd sylw penodol am y gwaith sy'n cael ei wneud yn CGM o reidrwydd ym mhob ysgol. Efallai y bydd yn dod i fyny fel pwynt sylw, neu efallai y bydd yn dod i fyny fel enghraifft, ond nid yw'n debygol o fod yno, nac mewn adroddiadau yn y dyfodol.

RT: Felly, fydddech chi ddim yn derbyn y ffaith yn ddeddfwriaethol, bod AG yn sefyll yn wahanol i bob pwnc arall yn y cwricwlwm, sef yr unig un sy'n gorfod cynhyrchu maes llafur cytunedig?

GM : Rydym yn edrych ar yr elfennau gorfodol hynny sy'n ddisgwyliedig, gan gynnwys addysg perthnasoedd a rhyw, er enghraifft, a bydd CGM yn rhan o'n sylfaen dystiolaeth, sydd y tu ôl i'r adroddiadau. Ni fydd Estyn o reidrwydd yn cyfeirio ato oni bai bod cryfder clir neu ei fod yn faes i'w wella y mae angen i'r ysgol fynd i'r afael ag ef. Mae adroddiadau Estyn yn edrych ar werthusiad o gryfderau a meysydd i'w gwella. Nid yw Estyn yn defnyddio dull rhestr wirio lle rydym yn ticio a yw ysgolion yn cydymffurfio â phethau.

RT: Dylai'r CYSau unigol fod yn cysylltu â phob ysgol i wirio eu bod yn cydymffurfio.

GM: Dyna gyfrifoldeb CYS yr Awdurdod Lleol i wneud yn siŵr bod ysgolion yn cydymffurfio â'r cwricwlwm lleol.

VB: Yn y canllawiau newydd a grybwyllwyd gennych ar y dull arolygu o'r cwricwlwm, a allai fod cyfeiriad at CGM o fewn hynny'n benodol?

GM: Mae'r canllawiau'n cael eu datblygu ar hyn o bryd. Mae'n ymateb i'r ffaith bod y cwricwlwm bellach yn symud y tu hwnt i'r uwchradd, yn enwedig 7 i 9 ac yn mynd i 10 i 11 hefyd. Byddaf yn sicr yn cymryd y sylw hwnnw yn ôl i wirio a oes cyfeiriad penodol at CGM yn y canllawiau hynny.

VB: Efallai y byddai hynny'n lle da i ddyfynnu rhywfaint o'r sgwrs rydyn ni wedi'i chael yma heddiw ynghylch â'r ymagwedd at CGM, wrth arolygu.

RB: Hoffwn i Estyn ailystyried y fframwaith cyfan o adrodd ar eithriadau, yn hytrach na'r holl bethau cadarnhaol a da sy'n digwydd mewn ysgol.

GM: Dydw i ddim yn cytuno, mae'r adroddiadau'n amlinellu'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella o fewn ysgolion. Mae'n adroddiad cytbwys ym mhob achos. Mae Estyn hefyd yn cynhyrchu dogfennau cryno ar gyfer rhieni a gwarcheidwaid, sy'n fwy cryno i ganiatáu i ysgolion gyfleu'r negeseuon allweddol hynny gyda'u cymunedau lleol.

13. Adroddiad y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2025

EE: Mae unrhyw faterion a gododd o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor Gwaith wedi cael eu trafod yn y cyfarfod hwn. Dim ond un eitem i'w chrybwyll sef y cod ymddygiad drafft y mae'r Pwyllgor Gwaith wedi'i baratoi. Anfonwyd hwn allan yn flaenorol a gofynnwyd i'r aelodau am eu sylwadau.

Mae CCYSAGAUC wedi derbyn un sylw yn ôl ynghylch y testun canlynol:

'Mae hefyd yn bwysig nodi, y tu allan i gyfarfodydd CCYSAGauC, na ddylech byth fynegi barn, na safbwynt, am unrhyw fater yr ydych yn ei ystyried yn farn CCYSAGauC, oni bai bod y Cadeirydd wedi gofyn yn benodol i chi wneud hynny. Ni ddylech byth fynegi eich barn neu'ch safbwynt eich hun mewn modd sy'n arwain eraill i gredu eich bod chi'n mynegi barn CCYSAGauC.'

Ystyriwyd bod y geiriad hwn yn amwys, a'r gwelliant a gynigir yw 'Y tu allan i gyfarfodydd CCYSAGauC peidiwch byth â siarad ar ran CCYSAGauC heb ganiatâd y Cadeirydd.'

Hefyd, camgymeriad teipio ar dudalen 2 i'w gywiro i CGM.

JHR ac RJ: Nid ydynt wedi cael cyfarfodydd CYS eto ac nid ydynt wedi gallu trafod y mater hwn.

JHR: A ddylid cynnwys egwyddorion Nolan yn y cod ymddygiad?

EE: Byddaf yn edrych i weld a oes angen i ni gyfeirio at egwyddorion Nolan cyn ail-anfon y cod diwygiedig at y CYSau. Penderfynwyd cyfeirio llofnodi'r cod ymddygiad i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

GWEITHREDU: EE i adolygu a ddylid cynnwys egwyddorion Nolan yn y cod ymddygiad. Bydd AP ac LJ yn ail-anfon y cod ymddygiad gyda'r gwelliannau a amlinellwyd uchod a chyfeirir at yr eitem yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

14. Diweddariadau:

CBAC (Chris Owens)

Rydym yng nghanol cyflwyno 12 digwyddiad Dysgu Proffesiynol cenedlaethol ledled Cymru. O'r un a fynychais i, ychydig iawn o awydd sydd gan athrawon Astudiaethau Crefyddol i ohirio cyflwyno'r cymhwyster newydd. Bydd gan gydweithwyr fwy o ddeunydd i lansio'r fanyleb newydd ym mis Medi.

Gadawodd EE y cyfarfod a chadeiriodd yr is-gadeirydd RS weddill y cyfarfod.

REC (Kathy Ruddick)

KR: Nid oes llawer o eitemau ar yr agenda sy'n effeithio ar Gymru ar hyn o bryd. Mae'r sylw ar Loegr gyda'r Bil Llesiant Plant ac Ysgolion a fydd yn arwain at yr adolygiad cwricwlwm llawn. Trafodaeth fawr am Addysg Grefyddol o ran a ddylent ei gynnwys yn y cwricwlwm cenedlaethol neu a yw'n parhau i gael ei asesu ar lefel awdurdod lleol.

Mae REC wedi datblygu Safon Cynnwys Genedlaethol sy'n debyg i Ganllawiau Statudol Cymru ar gyfer CGM, dolen: <https://religiouseducationcouncil.org.uk/resource/national-content-standard-1st-edition-2023/>

Mae LJ a KR wedi rhoi adborth ar brofiad Cymru o adolygu'r cwricwlwm. Mae yna ewyllys i geisio cyd-fynd â Chymru.

Mae Lloegr hefyd yn cael trafferth gyda'r cysyniadau ynghylch yr 'Hawl i Dynnu'n ôl.

LJ: Rhai eitemau a allai fod yn berthnasol i Gymru:

- Ailedrych ar y 'Prosiect Cydnerthedd' y bu Cymru'n gweithio arno amser maith yn ôl
- Prosiect traddodiadau Dharmaidd
- Marc Ansawdd – ailddatblygu ar gyfer CGM

Bydd yr eitemau hyn yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith.

EFTRE (Phil Lord)

Rhannodd LJ ddau gwestiwn PL.

- 1) A fydd CCYSAGauC yn noddï athro yng nghynhadledd EFTRE yn Budapest ar 21-24 Awst 2025?
- 2) A yw'r Pwyllgor Gwaith wedi trafod y syniad o brosiect 'Cynefin o amgylch Ewrop' o ran cyllid posibl?

Eitemau i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

GWEITHREDU : Y Pwyllgor Gwaith i drafod y ddwy eitem yma: 1) Noddï athro yng nghynhadledd EFTRE a 2) Syniad prosiect Cynefin o amgylch Ewrop o ran cyllid posibl.

PYCAG (Paula Webber)

Adroddodd RS nad yw PYCAG wedi cyfarfod yn ystod y tymor hwn. I fod i gyfarfod ar 18 Mawrth.

Materion lleol / ymholiadau

Dim wedi'i dderbyn.

15. Gohebiaeth

- AP: Cwestiwn gan CYS Wrecsam beth sy'n digwydd gydag adroddiadau blynyddol/a oes cosb os nad yw adroddiad blynyddol wedi'i gyflwyno?

GWEITHREDU: AP i ddilyn hyn gyda'r Pwyllgor Gwaith.

- LJ: Gofynnodd DG a fyddai'r Pwyllgor Gwaith yn ystyried cyflwyniad ar Sentientiaeth fel bydolwg athronyddol anghrefyddol. Anfonodd DG ddolenni gyda rhagor o wybodaeth. Bydd y Pwyllgor Gwaith yn trafod hyn yn y cyfarfod nesaf ym mis Mai.
- Ym mis Rhagfyr, ysgrifennodd CCYSAGauC at Cymwysterau Cymru mewn ymateb i gyfathrebiad CC ynghylch yr oedi i fanyleb AG TGAU. Cafwyd ymateb ffurfiol gan Philip Blaker o CC.

-

GWEITHRED: Anfon yr ymateb gan CC at bob CYS.

- LJ: Gohebiaeth gan Adnodd ynglŷn ag ymchwil maen nhw'n ei chynnal i sut mae addysgwyr a dysgwyr yn defnyddio Hwb a llwyfannau eraill i chwilio am adnoddau addysgol. Cais am gyfranogiad.

-

GWEITHREDU: LJ i anfon yr arolwg at y CYSau a all wedyn ei anfon ymlaen at athrawon.

Cadarnhaodd RS fod pob siaradwr cynhadledd wedi derbyn diolch ffurfiol.

16. Unrhyw fater arall (i'w gytuno cyn y cyfarfod gyda'r Cadeirydd)

Dim wedi'i adrodd.

Diolchodd RS i'r aelodau am eu hamser yn y cyfarfod cynhyrchiol hwn.

17. Dyddiad y cyfarfod nesaf (CCB) – drwy zoom, wedi'i gynnal gan Ynys Môn, dyddiad i'w gadarnhau

Daeth y cyfarfod i ben am 1.44pm.